# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 7 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:38** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_07_11_2013&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**<br>**Sally Hughes, Llywodraeth Cymru**<br>**Marc Osland, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Gareth Price (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)** |

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru): Cyfnod 2 - Trafod y gwelliannau

2.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, aeth y Pwyllgor ati i drafod a gwaredu'r gwelliannau i'r Bil yn y drefn a ganlyn:

Adrannau 1 - 3

**Adran 1:**
Ni chafodd gwelliannau eu cyflwyno i'r adran hon, felly bernir ei bod wedi'i derbyn.

**Adran 2:**
Tynnwyd gwelliant 8 (Mark Drakeford) yn ôl.

Gwelliant 3 (Paul Davies)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| | | |
| Simon Thomas<br>Peter Black<br>Paul Davies<br>Jocelyn Davies | Christine Chapman<br>Julie Morgan<br>Mike Hedges<br>Ann Jones | |
| 4 | 4 | 0 |
| Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 (ii)), ac ni dderbyniwyd gwelliant 3. | | |

Tynnwyd gwelliant 1 (Simon Thomas) yn ôl.

Gwelliant 2 (Simon Thomas)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| | | |
| Simon Thomas<br>Peter | Christine Chapman<br>Julie | |

| | | |
|---|---|---|
| Black<br>Paul Davies<br>Jocelyn Davies | Morgan<br>Mike Hedges<br>Ann Jones | |
| 4 | 4 | 0 |
| Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 (ii)), ac ni dderbyniwyd gwelliant 2. | | |

Tynnwyd gwelliant 10 (Simon Thomas) yn ôl.

Derbyniwyd gwelliant 9 (Mark Drakeford) yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Adran 3:**
Ni chafodd gwelliannau eu cyflwyno i'r adran hon, felly bernir ei bod wedi'i derbyn.

**Adrannau newydd:**

Gwelliant 4 (Paul Davies)

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| | | |
| Simon Thomas<br>Peter Black<br>Paul Davies<br>Jocelyn Davies | Christine Chapman<br>Julie Morgan<br>Mike Hedges<br>Ann Jones | |
| 4 | 4 | 0 |
| Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw yn negyddol (yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 (ii)), ac ni dderbyniwyd gwelliant 4. | | |

Tynnwyd gwelliant 5 (Paul Davies) yn ôl.

Tynnwyd gwelliant 6 (Paul Davies) yn ôl.

Methodd gwelliant 7 (Paul Davies).

2.2 Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi derbyn pob adran o'r Bil, a chan y gwaredwyd pob gwelliant, bydd Cyfnod 3 yn dechrau ar 8 Tachwedd 2013.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

3.1 Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (29 Hydref 2013)

3.2 Bil Addysg (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (22 Hydref 2013)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ymchwiliad Cyllid Cymru: Trafod y Cylch Gorchwyl Drafft

5.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a chytuno arno. Awgrymodd hefyd y posibilrwydd o gael cynghorwr arbenigol i gynorthwyo â'r ymchwiliad.

## 6 Trafod yr adroddiad drafft ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15

6.1 Gwnaeth y Pwyllgor ambell fân newid a chytuno ar y fersiwn drafft terfynol, gan nodi y byddai'n cael ei gyhoeddi ar 12 Tachwedd 2013.